O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 166 (Cy. 25)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 ("Rheoliadau 2000"), o ganlyniad i Ddeddf Addysg 2011 ("Deddf 2011"), sy'n darparu ar gyfer diddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ("CACLl") ac yn gwneud darpariaeth newydd o ran gwahardd personau rhag cyflawni gwaith addysgu. Mae Rheoliadau 2000 hefyd yn ystyried dyfodiad rhannau o Orchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) 2011 i rym.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn gosod darpariaeth newydd yn lle rheoliad 3(a) o Reoliadau 2000. Mae'r ddarpariaeth newydd yn ystyried dyfodiad i rym rannau o Orchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) 2011, sy'n gwneud newidiadau i'r meini prawf a fydd yn penderfynu bod person yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr athrawon yn yr Alban.

Mae rheoliad 2(3) yn ychwanegu paragraff newydd at Atodlen 1 i Reoliadau 2000 sy'n darparu y bydd telerau unrhyw orchymyn gwahardd a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"), o dan yr hwn y mae person yn cael ei wahardd rhag cyflawni gwaith addysgu, yn cael eu cofnodi yn y gofrestr athrawon sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mewnosodir adran 141B yn Neddf 2002 gan Ddeddf 2011. Mae'r rheoliad hefyd yn diddymu cyfeiriadau at CACLl ym mharagraffau 22A a 22B o Atodlen 1 i Reoliadau 2000.

Mae rheoliad 2(4) yn darparu y caiff telerau unrhyw orchymyn gwahardd a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf 2002, o dan yr hwn y mae person yn cael ei wahardd rhag cyflawni

gwaith addysgu, eu darparu i gyflogwyr ac eraill. Mae'r rheoliad hefyd yn diddymu cyfeiriadau at CACLl ym mharagraffau 13A a 13B o Atodlen 2 i Reoliadau 2000.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 166 (Cy. 25)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2012

*Gwnaed* *20 Ionawr 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *26 Ionawr 2012*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(3D), 4(2) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2012.

(**1**) 1998 p. 30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). Mewnosodwyd adran 3(3D) gan baragraffau 1, 3(1) a (5) o Ran 1 o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a diwygiwyd adran 4(2) gan baragraffau 1, 4(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) Daw rheoliad 2(2) i rym ar 2 Ebrill 2012, daw rheoliadau 2(3)(a) a 2(4)(a) i rym ar y diwrnod y daw adran 8 o Ddeddf Addysg 2011(**1**) i rym, a daw rheoliadau 2(3)(b) ac (c) a 2(4)(b) ac (c) i rym ar y diwrnod y daw adran 7 o Ddeddf Addysg 2011 i rym.

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 3(a) rhodder y paragraff a ganlyn—

"erthygl 18(2) (addasrwydd i addysgu) neu 19 (unigolion gwaharddedig) o Orchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) 2011(**3**) neu benderfyniad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban i ddileu unigolyn o'r gofrestr, yn dilyn ei ddyfarnu'n euog o dramgwydd, o dan erthygl 27 (tramgwyddau) o'r Gorchymyn hwnnw.".

(3) Yn Atodlen 1,

(a) ar ôl paragraff 21, mewnosoder y canlynol—

"**21A**

Telerau unrhyw orchymyn gwahardd sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person ac sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002.".

(b) ym mharagraff 22A, hepgorer y geiriau "neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr".

(c) ym mharagraff 22B, hepgorer y geiriau "neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr".

(4) Yn Atodlen 2,

(a) ar ôl paragraff 12A, mewnosoder y canlynol—

"**12B**

Telerau unrhyw orchymyn gwahardd sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person ac sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002.".

(b) ym mharagraff 13A, hepgorer y geiriau "neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr".

(c) ym mharagraff 13B, hepgorer y geiriau "neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr".

---

(**1**) 2011 p. 21.
(**2**) O.S. 2000/1979 (Cy. 140) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy. 200), O.S. 2004/1741 (Cy. 180), O.S. 2005/69 (Cy. 7), O.S. 2006/1343 (Cy. 133), O.S. 2009/1353 (Cy. 129) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).
(**3**) O.S.A. 2011/215.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru

20 Ionawr 2012